VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# PRIF DELERAU AC AMODAU

| | |
|---|---|
| 1. CYTUNDEB | Bydd y cytundeb a gynigir yn un penagored a pharhaol. |
| 2. TELERAU | Bydd Amodau Gwasanaeth yn cydymffurfio â’r Cyd-Bwyllgor Trafodaethau (CBT) ar gyfer Prif Swyddogion, yn ogystal ag unrhyw amodau neu reoliadau y gellid eu pennu gan y Llywodraeth Ganolog, Llywodraeth Cymru neu Gyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) o bryd i’w gilydd. |
| 3. CYFLOG | Bydd y cyflog yn codi mewn 5 pwynt cynyddrannol yn dechrau ar £95,105 hyd at £105,671 y flwyddyn. Mae symud y tu hwnt i’r trydydd pwynt cynyddrannol yn amodol ar gynnydd a pherfformiad boddhaol drwy’r system Gwerthuso Prif Swyddogion. Mae mynediad i bwyntiau pedwar a phump yn amodol ar adolygiad perfformiad llwyddiannus a ddyfernir gan y Cyngor. |
| 4. GWYLIAU BLYNYDDOL | Nifer y diwrnodau gwyliau yw 34 diwrnod (a gwyliau cyhoeddus). |
| 5. ORIAU GWAITH | Bydd gofyn i chi weithio’r oriau angenrheidiol rhesymol (yn cynnwys mynd i gyfarfodydd gyda’r nos ac ar benwythnosau) i gyflawni gofynion y swydd hon, ac ni wneir taliadau ychwanegol am hyn.<br><br>Mae’r penodiad yn gofyn am ymrwymiad “amser cyflawn” i waith y Cyngor. Ni fydd penodiadau busnes na fel arall yn dderbyniol heb ganiatâd penodol y Cyngor. |
| 6. TÂL SALWCH | Bydd Cynllun Tâl Salwch Galwedigaethol yn daladwy yn unol â’r CBT yn Llawlyfr Amodau Cyflogaeth Prif Swyddogion. |
| 7. PENSIWN | Bydd Cynllun Pensiwn Awdurdodau Lleol yn weithredol. |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | CYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL | Mae cyfyngiadau gwleidyddol ynghlwm wrth y swydd hon yn unol â Deddf Awdurdodau Lleol a Thai 1989 a phob diwygiad dilynol iddi. |
| 9. | CYFNOD RHYBUDD | Bydd gofyn rhoi cyfnod rhybudd o chwe mis yn ysgrifenedig gan y naill ochr neu'r llall i derfynu'r gyflogaeth. |
| 10. | LWFANS CAR | Bydd cynllun Rhannu Ceir y Cyngor yn berthnasol, ac os digwydd nad oes car ar gael, neu nad oes un sy'n addas i'w ddefnyddio ym marn y Cyngor, bydd cynllun Lwfans Car lleol y Cyngor yn weithredol. |
| 11. | GWEITHDREFNAU DISGYBLU, GALLU, DISWYDDO A CHWYNO | Fel y'u diffinnir yn o fewn y CBT yn Llawlyfr Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol. |
| 12. | ADLEOLI | Mae pecyn adleoli ar gael yn amodol ar delerau penodol hyd at uchafswm o £8,000 gan gynnwys TAW. |

**Gwneir pob cynnig o gyflogaeth yn amodol ar gwblhad boddhaus archwiliad meddygol, gwiriad geirda.**